OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1069 (Cy.109)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*27 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*23 Ebrill 2007*

Drwy arfer ei bwerau o dan adran 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 23 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unedau yng Nghymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "unedau" yw unedau cyfeirio disgyblion.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) 1994(**2**) a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Diwygio) 1996(**3**).

Cymhwyso ac addasu deddfiadau

3. Mae'r deddfiadau a grybwyllir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unedau gyda'r addasiadau a ragnodir yn yr Atodlen honno.

Datgymhwyso deddfiadau

4. Nid yw'r deddfiadau a grybwyllir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unedau.

(**1**) 1996 p. 56. Rhoddwyd y pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol: gweler y diffiniad o "regulations" yn adran 579 o Ddeddf 1996. Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), mae'r pwerau yn arferadwy gan y Cynulliad o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1994/2103.

(**3**) O.S. 1996/2087.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

D. Elis-Thomas
27 Mawrth 2007 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p. 38.

ATODLEN 1 Rheoliad 3

DEDDFIADAU SY'N GYMWYS I UNEDAU (GYDAG ADDASIADAU NEU HEBDDYNT)

RHAN 1

Deddfwriaeth Sylfaenol

Deddf Addysg 1996

1. Mae adran 404 o Ddeddf Addysg 1996(**5**) yn gymwys o ran yr athro neu'r athrawes â gofal uned fel y mae'n gymwys o ran corff llywodraethu ysgol a gynhelir, ond dim ond o ran disgyblion y darperir addysg uwchradd iddynt yn yr uned.

2. Mae adran 405 o'r Ddeddf honno yn gymwys o ran unedau fel y mae'n gymwys o ran ysgolion a gynhelir gyda'r addasiad fod y geiriau ", except so far as such education is comprised in the National Curriculum," yn cael eu hepgor.

3. Mae adran 559 o'r Ddeddf honno(**6**) yn gymwys o ran plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn uned fel y mae'n gymwys o ran plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig.

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

4.—(1) Mae adran 19 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**7**) yn gymwys o ran unedau fel y mae'n gymwys o ran ysgolion a gynhelir yng Nghymru gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Mae is-adran (1) yn gymwys os bydd yr amgylchiadau a osodir yn adran 15(6) o'r Ddeddf honno ar unrhyw adeg yn gymwys o ran uned.

(3) Yn is-adran (2) hepgorer y cyfeiriad at gorff llywodraethu ym mharagraff (a), a hepgorer paragraffau (b) a (c).

(4) Yn is-adran (3) hepgorer y cyfeiriad at gorff llywodraethu.

5. Mae adran 61 o'r Ddeddf honno'n gymwys o ran unedau fel y mae'n gymwys o ran ysgolion a gynhelir yng Nghymru (o fewn ystyr Rhan II o'r Ddeddf honno) gyda'r addasiad y rhodder yn lle cyfeiriadau at y corff llywodraethu gyfeiriadau at bwyllgor rheoli'r uned neu, yn achos uned sydd heb bwyllgor rheoli, yr awdurdod addysg lleol.

6. Mae is-adrannau (1), (2) a (4) o adran 62 o'r Ddeddf honno yn gymwys o ran uned fel y maent yn gymwys o ran ysgolion a gynhelir (o fewn ystyr Rhan II o'r Ddeddf honno) gyda'r addasiadau—

(a) bod y cyfeiriad yn is-adran (2)(b) at gorff llywodraethu yn gyfeiriad at yr athro neu'r athrawes â gofal yr uned, a

(b) bod y cyfeiriad yn is-adran (4) at gorff llywodraethu yn cael ei hepgor.

Deddf Addysg 2002

7. Mae adran 29(3) o Deddf Addysg 2002(**8**) yn gymwys o ran unedau fel y mae'n gymwys o ran ysgolion a gynhelir (o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 3 o'r Ddeddf honno).

(**5**) Diwygiwyd Adran 404 gan baragraff 103 o Atodlen 30, ac Atodlen 31, i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), a chan adran 148(1) a (6) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21).

(**6**) Diwygiwyd adran 559 gan baragraff 171 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(**7**) 1998 p. 31. Diwygiwyd adran 19 gan adran 149 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 a pharagraffau 1 a 79 o Atodlen 9 ohoni (p. 21) a chan adran 45 o Ddeddf Addysg 2005.

(**8**) 2002 p. 32.